**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

02 Rhagfyr 2014

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r aelodau o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i asesu capasiti rhwydwaith rheilffyrdd Cymru. Gofynnwyd cwestiwn imi ynghylch hyn yn ystod fy sesiwn holi Gweinidogion ar 19 Tachwedd.

Yn gyntaf, rwy'n ystyried hwn yn fater difrifol iawn, felly mae fy swyddogion yn monitro'n rheolaidd broblemau capasiti a gorlenwi ar rwydwaith Trenau Arriva Cymru ac mae hyn yn helpu i gynllunio ar gyfer yr tymor byr a'r hirdymor. Fel rhan o'r gwaith hwn, adolygir data ynghylch nifer y bobl sy'n defnyddio pob un o wasanaethau Trenau Arriva Cymru a hynny sawl gwaith y flwyddyn. Hefyd, ddiwedd 2012, comisiynwyd adolygiad manwl ynghylch problemau capasiti a gorlenwi ar draws y rhwydwaith. Dengys y dadansoddiad bod pobl yn sefyll ar 7% o'r gwasanaethau ac roedd gorlenwi ar 1% o'r gwasanaethau. Prin iawn oedd yr achosion lle roedd teithwyr yn gorfod sefyll am fwy nag 20 munud.

Er bod y dadansoddiadau'n dangos nad oedd mwyafrif y gwasanaethau ar draws y rhwydwaith yn dioddef o broblemau gorlenwi yn rheolaidd, gwelwyd bod gan nifer o wasanaethau broblemau capasiti, yn enwedig ar adegau prysur.

Er mwyn ymdrin â phroblemau o'r fath, ar hyn o bryd, mae Trenau Arriva Cymru yn derbyn £4.4 miliwn i brynu cerbydau ychwanegol fel bod mwy o le ar o leiaf saith o wasanaethau Cledrau'r Cymoedd yn ystod yr adegau prysuraf sef yn y bore a gyda'r nos. Rydym hefyd yn rhoi rhagor o arian i ragor o drenau gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau ychwanegol, yn ogystal â darparu rhagor o gapasiti ar wasanaethau prysur, er enghraifft, gwella gwasanaethau Glynebwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

O ran y problemau capasiti presennol, rydym wrthi'n trafod yr opsiynau posibl gyda Trenau Arriva Cymru, gan gofio bod gan y cwmni, fel rhan o delerau'r fasnachfraint, ddyletswydd i reoli problemau capasiti.  Fel rhan o'r trafodaethau hyn, mae ATW wedi nodi nad oes ganddyn nhw gerbydau addas ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn y tymor byr.  Fodd bynnag, rwyf wedi pwysleisio i ATW bod hwn yn fater difrifol, ac wedi gofyn i'm swyddogion barhau i weithio gyda hwy i geisio dod o hyd i atebion ble y bo hynny'n bosib.

Edwina Hart